

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD (ADEILADU PONT FFORDD PONT BRIWET) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r Cynllun uchod, a wnaed gan Gyngor Gwynedd o dan Adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Fel y'i cadarnhawyd, mae'r Cynllun yn awdurdodi'r Cyngor i adeiladu pont ffordd sy'n ymgorffori llwybr cerdded a llwybr beicio dros aber afon Dwryd o Ystad Ddiwydiannol Cookes, Penrhyndeudraeth i Landecwyn, Gwynedd.

Mae'r cynllun yn cychwyn o bwynt ar ochr ogleddol aber Afon Dwryd, sydd â'i gyfesurynnau yn 261897.7E, 338335.2N, ac mae'n gorffen ar bwynt ar yr Ochr Ddeheuol sydd â'i gyfesurynnau yn 261913.8E, 338212.5N. Cyfeirnod Map yr Arolwg Ordnans yw SH63NW. Bydd y bont fwy neu lai ar safle pont ffordd/rheilffordd y Bont Briwet bresennol, a fydd yn cael ei dymchwel.

Gellir gweld copiau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun sy'n dwyn yr enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013" ynghyd â chopiau o'r planiau perthnasol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH ac yn Swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir prynu, drwy lyfrwerthwyr ac yn uniongyrchol gan y Llyfrfa Cyf., gopiau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun o'r enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013", sy'n cynnwys copi o'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ac sy'n dymuno herio'i ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd, mewn perthynas â'r Gorchymyn, ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno, neu ag unrhyw reoliadau a wnaed odani, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl 31 Ionawr 2013, yn gofyn am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn, neu am atal neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Cynllun, yr Offeryn Cadarnhau a'r Hysbysiad Cyhoeddus hwn yn

www.cymru.gov.uk (Dewiser 'legislation',
'subordinate', 'localstat',
'HighwaysActLineOrders')

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn
print bras oddi wrth: Y Gangen
Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth
Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10
3NQ.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru